| **Cynllun Gweithredu Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar gyfer Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar ôl Ymweliad ag Ysbyty Treforys ar 25 a 26 Tachwedd 2012**<br>**WARD A** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Argymhellion AGIC** | **Cam(au) Gweithredu** | **Rheolwr / Rheolwyr Arweiniol** | **Dyddiad / Amserlen** | **Yr Hyn a Gyflawnwyd / Dyddiad Cwblhau** |
| **AMGYLCHEDD Y WARD** | | | | |
| 1.1 Adolygu'r trefniadau ar gyfer storio ar y wardiau er mwyn sicrhau y gellir cadw offer ac eiddo'r cleifion a'r staff yn briodol. | Ystyried dewisiadau ar gyfer mannau storio ychwanegol, yn rhan o'r cynlluniau sy'n cael eu hystyried i newid defnydd y Ward i gynnwys Uned Asesu.<br><br>Cynnig i greu man storio ar gyfer Ward A yn y prif goridor.<br><br>Trawsnewid Gofal – cynnal adolygiad o lefelau'r cyflenwadau/defnydd o le. | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ystadau<br><br>Rheolwr Ystadau/Rheolwr y Ward | Mis Mawrth 2015 (os cymeradwyir y cynlluniau)<br><br>Mis Rhagfyr 2013, os cymeradwyir y cynlluniau<br><br>Mis Mehefin 2013 | Yn aros am adolygiad o'r cynlluniau a phenderfyniad<br><br>Yn aros am adolygiad o'r cynlluniau a phenderfyniad<br><br>Gweithredwyd, ac fe'i hadolygir yn rheolaidd |
| 1.2 Sicrhau nad oes dim yn rhwystro'r holl allanfeydd tân ar y wardiau, er mwyn gwneud yn siŵr y gellir mynd allan o'r ward yn ddiogel mewn achos o argyfwng. | Cyflwyno trefn ddyddiol o gerdded o amgylch i sicrhau nad oes rhwystrau wrth yr allanfeydd tân. | Swyddog Tân/Rheolwr y Ward | Gweithredwyd a pharhaus | Cwblhawyd.<br>Dalenni rhestr gyfeirio wedi'u paratoi er mwyn i bob sifft archwilio allanfeydd tân o fis Tachwedd 2012, a chopïau caled yn cael eu cadw at ddibenion archwilio o fis Ebrill 2013 ymlaen. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1.3 Sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i wneud yn siŵr y cynhelir preifatrwydd ac urddas y cleifion pan eu bod yn defnyddio'r tai bach ar y wardiau. | Atgoffa'r holl staff i sicrhau y perchir urddas y cleifion bob amser, a sicrhau eu bod yn mynd i'r tŷ bach (pan fo'r cleifion yn defnyddio seinydd i gael cymorth), gan sicrhau nad oes neb yn gallu gweld i mewn i'r tŷ bach. | Rheolwr y Ward a'r Pennaeth Nyrsio. | Gweithredwyd | Gweithredwyd |
| 1.4 Adolygu i ba raddau y cydymffurfir â'r drefn o neilltuo cilfachau ar gyfer un rhyw, er mwyn sicrhau y gwneir pob ymdrech i osgoi unrhyw achos o dorri'r rheol. | DIM CYMYSGU yw polisi'r ward. (Ceir cymysgu weithiau o hyd o ganlyniad i bwysau gan y Rheolwr Gwelyau i ddarparu llety) | Rheolwr y Ward **Ffurflen IR1 bellach yn cael ei llenwi bob tro y mae hyn yn digwydd** | Ar waith. | Yn cydymffurfio |
| **AGWEDD AC YMDDYGIAD Y STAFF A'U GALLU I DDARPARU GOFAL AG URDDAS** | | | | |
| 2.1 Sicrhau yr atgoffir pob aelod o'r staff bod yn rhaid i bob cyfarfyddiad wyneb yn wyneb â'r cleifion fod yn barchus, gan gynnwys cyfarch y cleifion wrth eu henwau dewisol. | Wedi ail-bwysleisio bod angen gofyn i'r cleifion pa enw fyddai'n well ganddynt i'r staff ei ddefnyddio. Pob aelod o'r staff i ddilyn hyfforddiant ar urddas a pharch | Rheolwr y Ward | Ar unwaith, a monitro parhaus gan Reolwr y Ward | Yn cydymffurfio |
| 2.2 Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o bwysigrwydd disgresiwn wrth drafod gwybodaeth sensitif. | Atgoffa'r staff am hyfforddiant a chyfrinachedd cleifion yn yr ardal glinigol. | Rheolwr y Ward | Ar unwaith, a monitro parhaus gan Reolwr y Ward | Yn cydymffurfio |
| 2.3 Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gwisgo bathodynnau adnabod er mwyn i eraill eu hadnabod tra eu bod ar ddyletswydd. | Yr holl staff wedi eu hatgoffa bod angen iddynt wisgo eu bathodynnau adnabod bob amser. | Rheolwr y Ward | Ar unwaith, a monitro parhaus gan Reolwr y Ward | Yn cydymffurfio |
| **RHEOLI CLEIFION SY'N DDRYSLYD NEU SYDD Â DEMENTIA** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.1 Sicrhau bod arwyddion mawr yn cael eu gosod ar gyfleusterau'r cleifion, megis ystafelloedd ymolchi a thai bach. | Archebu arwyddluniau a'u gosod ar ddrysau'r tai bach/ystafelloedd ymolchi. (Mae arwyddion "ffigwr coesau matsys" eisoes wedi'u gosod arnynt) | Rheolwr y Ward | Mis Mehefin 2013 | Gweithredwyd |
| **CYNLLUNIO A DARPARU GOFAL** | | | | |
| 4.1 Sicrhau bod y staff yn cwblhau asesiadau'r cleifion yn llawn a'u diweddaru'n rheolaidd er mwyn iddynt fod yn sail i gynllun gofal y cleifion. | Adolygiadau POINT yn cael eu cynnal, a chynhelir archwiliadau ar hap bob mis. Dogfennau/asesiadau'r ward wedi eu diweddaru ym mis Ebrill/mis Mai 2013, ac atgoffwyd y staff am y rheswm. Dylid eu cwblhau wrth i'r gofal gael ei ddarparu, yn hytrach nag ar ddiwedd sifft neu ran o'r ystafell. | Rheolwr y Ward i'w atgyfeirio i'r Pennaeth Nyrsio | Atgyfeirio'n uwch ar unwaith. | Gweithredwyd ac yn parhau. Archwiliadau ar hap gan y nyrs arweiniol |
| 4.2 Sicrhau bod gan yr holl gleifion mewnol gynlluniau gofal sy'n cael eu haddasu i'w hanghenion penodol, eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. | Defnyddir Cynllun Gofal Cyffredinol:<br>-Ynghlwm wrth y ffurflen Hanfodion Gofal. | Rheolwr y Ward | Ar unwaith | Yn cydymffurfio |
| 4.3 Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y staff i gyd yn ymwybodol fod y cleifion, a'u perthnasau pan fo'n briodol, yn cael gwybodaeth lawn a'u bod yn cymryd rhan mewn trafodaethau ynglŷn â'u triniaeth a chynllun gofal, ac y | Hysbysir y perthynas agosaf. Hysbysir perthnasau eraill. Derbynnir nad yw pob perthynas yn cael ei hysbysu. Fodd bynnag, disgwylir bod perthnasau yn siarad â'i gilydd, yn enwedig am ryddhau cleifion. (Mae'n RHAID cofnodi | Rheolwr y Ward | Ar unwaith | Yn cydymffurfio |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| cofnodir y rhain. | tystiolaeth o drafodaeth â'r claf/teulu yn y Nodiadau Gwerthuso, hyd yn oed os yw hi'n gynnar yn y broses dderbyn a thriniaeth ac nad oes unrhyw gynllun pendant ar gael – atgoffwyd y staff am hyn) | | | |
| **RHEOLI COFNODION** | | | | |
| 5.1 Sicrhau bod y staff yn llenwi nodiadau cleifion ar unwaith ar ôl darparu gofal, triniaeth neu ar adegau prydau bwyd ac ati. | Wedi dechrau defnyddio bwrdd Cipolwg ar Ddiogelwch Cleifion (PSAG): y ward wedi ei rhannu'n goch a glas.<br>Ceir diweddariad ar ôl prawf 6 wythnos<br>(<u>RHAID PEIDIO Â</u> chwblhau asesiadau'r ward ar ddiwedd sifft na rhan o'r ystafell, ond wrth i'r gofal gael ei ddarparu – atgoffwyd y staff am hyn)<br>Wedi newid arfer o ran trosglwyddo yn y swyddfa.<br>Wedi newid cynllun gofal ac asesiadau. | Y Pennaeth Nyrsio<br>Yr Uwch Nyrs Glinigol | Mis Mehefin 2013 | Gweithredwyd |
| 5.2 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr holl ffurflenni Na Cheisier Dadebru yn cael eu cwblhau yn llawn a'u bod yn dangos tystiolaeth o drafodaethau â'r claf a/neu deulu'r claf. | Ystyried ffyrdd o amlygu'r broses Na Cheisier Dadebru sydd wedi ei chynnwys ym Mholisi Dadebru'r Bwrdd Iechyd, ac adolygu cydymffurfiad | Y Cyfarwyddwr Meddygol | Mis Awst 2013<br>Hyfforddiant ar Ganiatâd i gynnwys y defnydd o'r ffurflenni Na Cheisier Dadebru.<br><br>Mae'r ffurflen adolygu Marwolaethau Cymru Gyfan y cynhelir astudiaeth beilot ar ei | Gweithredwyd ac yn parhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | chyfer ar hyn o bryd yn cynnwys adran ar Na Cheisier Dadebru erbyn hyn. | |
| **HYLIF A MAETH** | | | | |
| 6.1 Dylai'r Bwrdd Iechyd gynnal adolygiad o adegau gweini bwyd er mwyn sicrhau y ceir cyfnodau priodol rhwng y tri phrif bryd bwyd. | Cynhaliwyd adolygiad yn flaenorol o'r adegau bwyd, a nod y Bwrdd Iechyd yw sicrhau na cheir mwy na 14 awr rhwng swper a brecwast. Gall hynny fod yn anodd ar rai wardiau oherwydd cyflwr y cleifion. Mae byrbrydau maethlon ar gael ar y Wardiau. | Pennaeth y Gwasanaethau Gwesty | Monitro parhaus | Gweithredwyd ac yn parhau |
| 6.2 Sicrhau bod nyrs gofrestredig ar bob sifft yn goruchwylio'r adegau prydau bwyd, a/neu ei bod yn atebol am y ffordd y trefnir yr adegau prydau bwyd. | Gweithredwyd. | Rheolwr y Ward | Ar unwaith. | Yn cydymffurfio |
| 6.3 Sicrhau bod y cleifion wedi eu paratoi yn briodol cyn adegau prydau bwyd ar y ward, gan gynnwys eu helpu i eistedd yn fwy cyfforddus, a glanhau/clirio'r byrddau wrth ochr y gwelyau er mwyn i'w prydau bwyd fod o fewn cyrraedd rhwyddach iddynt. | Atgoffwyd y staff, a bydd Rheolwr y Ward yn adolygu'r sefyllfa yn barhaus. | Rheolwr y Ward | Ar unwaith. | Yn cydymffurfio |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 6.4 Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o bwrpas cywir y fenter hambwrdd coch i nodi cleifion y mae angen cymorth arnynt i fwyta. | Mae Rheolwr y Ward wedi atgoffa'r staff am hyn ac mae'n ei adolygu (Mae'n RHAID i bob aelod o'r staff gwblhau'r pecyn e-ddysgu ynglŷn â maeth – mae hyn wedi ei wneud yn barhaus. Hysbyswyd am broblemau mynych ynglŷn â defnyddio'r safle. Mae Helen Griffiths wedi rhoi sicrwydd i ni fod y broblem wedi ei datrys bellach) | Rheolwr y Ward | Ar unwaith | Yn cydymffurfio |
| 6.5 Sicrhau bod yr holl gleifion y mae angen cymorth arnynt yn ei gael cyn gynted ag y gweinir eu bwyd iddynt. | Y cleifion y mae angen cymorth arnynt sy'n derbyn eu bwyd olaf, a hynny er mwyn sicrhau bod gan y staff ddigon o amser i roi cymorth iddynt. | Rheolwr y Ward | Ar unwaith | Yn cydymffurfio |
| 6.6 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr holl gleifion yn cael eu goruchwylio ar adegau prydau bwyd hyd yn oed os ydynt yn gallu bwyta eu prydau bwyd ar eu pennau eu hunain. | Atgoffwyd y staff am bwysigrwydd goruchwylio'r holl gleifion ar adegau prydau bwyd. | Rheolwr y Ward | Ar unwaith | Gweithredwyd ac yn parhau |
| 6.7 Sicrhau bod aelodau staff priodol yn casglu hambyrddau'r cleifion ar ôl adegau prydau bwyd er mwyn gallu asesu a chofnodi faint o fwyd y mae'r cleifion yn ei fwyta. | Wedi atgoffa'r staff, ac mae Rheolwr y Ward yn adolygu'n barhaus. | Rheolwr y Ward | Ar unwaith | Yn cydymffurfio |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 6.10 Sicrhau bod y staff yn llenwi'r siartiau bwyd a hylif yn rheolaidd. | Atgoffa'r staff a'r staff cymorth o'r broses. | Rheolwr y Ward | Ar unwaith | Yn cydymffurfio |
| 6.11 Sicrhau bod y staff yn annog y cleifion yn rheolaidd i yfed. | Anogir y cleifion sydd ag angen hynny. | Rheolwr y Ward | Ar unwaith | Yn cydymffurfio |
| **BRIWIAU PWYSO** | | | | |
| 7.1 Sicrhau bod y staff yn cwblhau'r croesau diogelwch yn llawn ac yn eu diweddaru'n rheolaidd. | Mae'r croesau diogelwch ar y waliau yn swyddfa'r Ward. Atgoffir y staff i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau. | Rheolwr y Ward | Ar unwaith | Yn cydymffurfio |
| 7.2 Sicrhau bod y staff yn cynnal yr holl asesiadau Waterlow a'u diweddaru'n llawn ar gyfer y cleifion hynny y mae eu cyflwr clinigol yn newid. | Atgoffa'r staff. | Rheolwr y Ward | Ar unwaith | Yn cydymffurfio |
| 7.3 Sicrhau y rhoddir sylw i'r cydbwysedd rhwng gorffwys a'r risg o friwiau pwyso, er mwyn sicrhau y darperir gofal diogel a phriodol i'r cleifion. Yna, dylid cofnodi unrhyw reswm dros beidio â chydymffurfio'n llawn â'r bwndel SKIN. | Atgoffa'r staff am bwysigrwydd troi'r cleifion gan sicrhau cydbwysedd rhwng gorffwys a'r risg o friwiau pwyso. | Rheolwr y Ward | Ar unwaith | Yn cydymffurfio |
| **GOFAL A HYLENDID PERSONOL** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 8.1 Sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o bob agwedd ar ofal y cleifion. | Mae bwndel gofal y geg ar gael, a bydd y staff yn cael eu hatgoffa amdano. | Rheolwr y Ward | Ar unwaith | Yn cydymffurfio |
| 8.2 Sicrhau bod y cleifion i gyd yn cael y cyfle i olchi eu dwylo cyn adegau prydau bwyd. | Atgoffa'r staff y dylid darparu hancesi gwlyb. | Rheolwr y Ward | Ar unwaith | Yn cydymffurfio |
| 8.3 Adolygu'r broses bresennol ar gyfer darparu llieiniau a dillad gwely glân i'r wardiau, er mwyn sicrhau bod cyflenwad digonol ar gael bob amser. | Gweithredir system y tu allan i oriau arferol, pan fo'r Wardiau yn cysylltu â'r porthorion y tu allan i oriau arferol i gael gafael ar lieiniau a dillad gwely.<br>Prynir llieiniau a dillad gwely yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn. Hysbysu Dirprwy Bennaeth y Gwasanaethau Cymorth am unrhyw ddigwyddiadau er mwyn ymchwilio iddynt. | Rheolwr y Gwasanaethau Cymorth | O fewn mis | Gweithredwyd ac yn cael ei fonitro |
| **ANGHENION O RAN MYND I'R TŶ BACH** | | | | |
| 9.1 Sicrhau y sefydlir dull cyson ar gyfer glanhau comodau'n effeithiol ac y gosodir arwydd clir i ddangos bod y comôd wedi ei lanhau ac yn barod i'w ddefnyddio. | Cynhelir archwiliadau dyddiol. Derbynnir bod angen bod yn fwy gwyliadwrus. | Rheolwr y Ward | Ar unwaith | Yn cydymffurfio |
| **CYFATHREBU** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 11.1 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr holl gymhorthion cyfathrebu ar gael ar y Wardiau i helpu cleifion sydd â nam ar y synhwyrau, a bod y staff yn ymwybodol ohonynt. | Atgoffa'r staff i sicrhau bod anghenion y cleifion o ran eu synhwyrau yn cael eu nodi yn rhan o'r adolygiad o'u hanghenion corfforol, cymdeithasol a seicolegol. Angen cofnodi hyn ar adeg eu derbyn a hysbysu'r staff am y cymorth/cymhorthion synhwyraidd sydd eu hangen, ac yna, eu cael fel y bo'n briodol. | Rheolwr y Ward | Ar unwaith | Parhaus |
| **RHEOLI MEDDYGINIAETH A RHEOLI POEN** | | | | |
| 12.1 Ar ôl canfod bod claf mewn poen, sicrhau y cynhelir asesiad poen ar unwaith a llunio cynllun gweithredu a gaiff ei adolygu a'i werthuso'n rheolaidd. | Adolygir asesiadau poen ar siartiau NEWS. Ni ddefnyddir dulliau o leddfu poen heblaw am hynny. (Mae asesiadau poen yn rhan o'r siart NEWS ac mae'n <u>RHAID</u> llenwi a chymryd camau gweithredu.) Atgoffa'r staff i gynnal yr asesiad a chymryd camau gweithredu amserol a phriodol. | Rheolwr y Ward a'r Pennaeth Nyrsio | Ar unwaith | Gweithredwyd ac yn parhau |
| 12.2 Sicrhau bod systemau wedi eu sefydlu i leihau'r perygl y gallai'r cleifion a gweithwyr heb eu hawdurdodi gael gafael ar feddyginiaeth. | Mae'r cwpwrdd yn cael ei gloi ond y mae drws wedi ei archebu. Y sefyllfa i gael ei monitro. Wedi gofyn i'r adran Ystadau ar 25.01.13 am brif ddrws cloadwy a mwy o le storio, ond yn dal i ddisgwyl i Ystadau weithredu. | Rheolwr y Ward a Rheolwr Ystadau | Ar unwaith | Yn cydymffurfio |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **CYNLLUNIO AR GYFER RHYDDHAU CLEIFION** | | | | |
| 13.1 Sicrhau bod y cleifion, a phan fo'n briodol, eu perthnasau, yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio ar gyfer rhyddhau'r claf. | Trafodir hyn gyda'r prif ofalwr.<br>Atgoffa'r staff.<br>O'r diwrnod derbyn.<br>(Mae'n RHAID cofnodi tystiolaeth o'r drafodaeth â'r claf/teulu yn y Nodiadau Gwerthuso Nyrsio a pheidio â'u gadael heb eu cofnodi – wedi atgoffa'r staff) | Rheolwr y Ward a'r Pennaeth Nyrsio | Ar unwaith | Yn cydymffurfio |
| **GWEITHGAREDDAU** | | | | |
| 14.1 Ystyried ffyrdd o ddarparu gweithgareddau priodol ac ysgogiad i'r cleifion trwy gydol eu cyfnod yn yr ysbyty | Ward Trawma ac Orthopedeg Acíwt Cyfnod Byr yw'r ward, gyda'r cleifion yn aros am rhwng 3 a 5 niwrnod ar gyfartaledd.<br><br>Mae teledu a radio ar gael i bob claf ar y Ward, ac mae Gwasanaeth Brenhinol Gwirfoddol y Merched yn ymweld gyda llyfrau llyfrgell. | Rheolwr y Ward | Amherthnasol | Amherthnasol |